ATODLEN >1

Symiau sydd i'w diystyru wrth gyfrifo incwm

# RHAN >1

## Symiau sydd i'w diystyru

**2.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), pan fo gan A anghenion am ofal a chymorth ac eithrio darpariaeth o lety mewn cartref gofal, neu pan fo A yn breswylydd dros dro, unrhyw gostau cysylltiedig â thai y mae A'n atebol am eu talu mewn cysylltiad ag unig neu brif gartref A.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i'r graddau fod y costau cysylltiedig â thai y mae A yn atebol am eu talu yn daliad, cyfraniad neu ad-daliad neu'n swm a ddiystyrir o dan baragraff 3.

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "costau cysylltiedig â thai" ("*housing-related costs*") yw unrhyw ad-daliadau morgais, taliadau o rent neu rent tir, treth gyngor neu ffioedd gwasanaeth (ac eithrio ffioedd gwasanaeth sy'n anghymwys o dan Atodlen 1 i Reoliadau Budd-dal Tai 2006 (ffioedd anghymwys)).